# Cymraeg Ail Iaith




"Mae dewis y pwnc hwn yn ffordd dda o ddysgu am Hanes Cymru a dod i adnabod cerddi Cymraeg. Mae'n ddefnyddiol iawn i ddilyn gyrfa yng Nghymru."

Jade Roberts





## Pam astudio Cymraeg?

Mae Cymraeg yn bwnc diddorol, defnyddiol sy'n gallu bod yn werthfawr mewn pob math o feysydd a sefyllfaoedd os ydych yn dymuno byw a gweithio yng Nghymru. Byddwch yn astudio ffilm, cerddi, straeon a gramadeg; byddwch yn trafod a sgwrsio a datblygu eich hyder wrth gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r gwahanol agweddau sydd i'r cwrs yn plethu i greu sylfaen gryf er mwyn byw eich bywyd yn y Gymru gyfoes.

## Gofynion y cwrs

Bydd ennill gradd C neu well mewn TGAU Ail Iaith yn fodd o sicrhau'r cyfle i astudio Cymraeg Ail Iaith Uwch Gyfrannol.

## Manylion y cwrs a'r dulliau asesu

### UG

**Uned 1:** Arholiad llafar – trafod ffilm [15% o'r cymhwyster]
**Uned 2:** Gwaith Cwrs – creu pecyn o dasgau ar un thema [10% o'r cymhwyster]
**Uned 3:** Arholiad ysgrifenedig: Gramadeg a Barddoniaeth (2 awr) [15% o'r cymhwyster]

### Uwch

**Uned 4:** Arholiad llafar – gwaith grŵp ac unigol [25% o'r cymhwyster]
**Uned 5:** Arholiad ysgrifenedig: Y Gymraeg yn y Gymdeithas a Thrawsieithu [15% o'r cymhwyster]
**Uned 6** Arholiad ysgrifenedig: defnyddio'r Gymraeg a gwerthfawrogi rhyddiaith. [20% o'r cymhwyster]

## Sgiliau a ddatblygir a swyddi posibl

Bydd unrhyw un sydd yn dymuno gweithio yng Nghymru yn y dyfodol yn elwa o ddilyn y cwrs hwn gan fod cynifer o swyddi yn nodi fod y gallu i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol. Bydd y sgiliau a ddatblygir tra'n astudio Cymraeg Ail Iaith yn sylfaen gadarn ar gyfer pob math o feysydd, yn ogystal â'u bod nhw yn eich arfogi ar gyfer cyfathrebu yn y gweithle trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd Cymraeg Ail Iaith yn ddefnyddiol iawn ar gyfer gyrfa ym maes addysg, gwasanaethau cyhoeddus, llywodraeth leol neu'r cyfryngau.

VI